# THOMAS, LEWIS (bu farw Mawrth 1704), un o brif arweinwyr y Bedyddwyr Neilltuol

**Enw:** Lewis Thomas
**Dyddiad marw:** Mawrth 1704
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** un o brif arweinwyr y Bedyddwyr Neilltuol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Thomas Richards

wedi mudo o John Miles i America; brodor o Fargam. Bedyddiwyd ef yn Ilston yn Nhachwedd 1650, a daeth yn bregethwr pur amlwg yn ôl y trefniadau cymhleth a wnaed gan Miles yn 1657. Yn ddiweddarach sefydlodd ei gartref yn y M r ger Trenewydd Notais; yno yr oedd pan ddisgrifir ef yn 1669 yn pregethu yn anghyfreithlon yng nghwmni Richard Cradock yr Annibynnwr, ac yn nh hwnnw. O dan Ddeclarasiwn 1672 wele ef yn cael trwydded i bregethu yn Abertawe yn nh William Dykes. Dioddefodd lawer oddi wrth ddeddfau Clarendon a gwritiau siryfon. Ond pan ddaeth y Goddefiad gwelir mai maes ei arolwg oedd Bedyddwyr y gorllewin o Benybont-ar-Ogwr i dref Caerfyrddin, 'eglwys Abertawe,' er bod cyfeiriadau ato'n pregethu, a hynny'n bur rheolaidd, cyn belled i'r dwyrain â Hengoed a Blaenau Gwent. Gwelir ei enw ar gofnodion cymanfaoedd Llundain (1689, 1692), ac yn amlycach fyth yng nghymanfa Cymru o 1700 ymlaen. Yr oedd yn bresennol yng nghymanfa Llanwenarth, 1703; yn Abertawe, 1704, gwnaed coffad syml, ond huawdl, o'i farw. Ychydig cyn hynny talwyd teyrnged arbennig iddo; ef oedd y cyntaf i bregethu yn nh cwrdd newydd Rhydwilym 1701, y cyntaf i'w godi gan y Bedyddwyr yng ngorllewin Cymru. ' Mwyn fel oen, llafurus fel ych, ac eofn fel llew.'

## Awdur

**Thomas Richards**, (1878 - 1962)

## Ffynonellau


Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (1778) (arg. 1885), 92-3, 100-4

*Lambeth MS* 639 (187b)

*Calendar of State Papers, Domestic Series* Chas. II, 251, 260

Entry Book 38 A

*Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1928, 87, 101; 1938, 94-5


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733803


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu